**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y BBC a Cymru Greadigol**

**Pwrpas**

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw amlinellu’r cytundeb partneriaeth rhwng Cymru Greadigol a’r BBC. Dyma’r ail ddogfen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru Greadigol a’r BBC, gyda’r un gyntaf wedi’i llofnodi yn 2021. Hyd yn hyn, mae‘r trefniadau partneriaeth sy’n cael eu cefnogi gan y cytundeb wedi creu effaith greadigol a chael effaith ar gynulleidfaoedd ledled y DU gyda theitlau fel *Steeltown Murders*, *Wolf* a *Lost Boys and Fairies*, gyda phob un ohonynt wedi’u cyflwyno fel rhan o gydweithrediad rhwng BBC Cymru Wales a Cymru Greadigol adeg y Flwyddyn o Ddramâu o Gymru yn ystod 2023/24. Daeth hefyd â buddion economaidd mawr i Gymru o ran sgiliau a chyflogadwyedd. Wrth wraidd y bartneriaeth hon mae'r pwrpas cyffredin sy'n uno BBC Cymru a Cymru Greadigol: cefnogi sector diwydiannau creadigol Cymreig sy’n fywiog, yn amrywiol a gyda’r gorau yn y byd, ac sy’n rhagori wrth gynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys. Mae’r prosiectau hyn yn adlewyrchu Cymru iddi hi ei hun, ond cânt eu mwynhau hefyd gan gynulleidfaoedd mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cydweithrediad hirdymor sy'n cynnwys y BBC, Cymru Greadigol, a phartïon perthnasol eraill o bosib. Er bod pwyslais y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn parhau i fod ar y sector sgrin yng Nghymru, bydd hefyd yn cefnogi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar flaenoriaethau ar y cyd sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol ehangach, fel y sector cerddoriaeth, ac rydyn ni’n parhau i fod yn agored i archwilio meysydd ehangach o gydweithio ar ddatblygu'r diwydiannau creadigol yng nghyd-destun rhwymedigaethau Siarter y BBC.

Yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd hwn, rydyn ni hefyd yn amlinellu ymrwymiad newydd, ar y cyd, i gynaliadwyedd amgylcheddol a chynyrchiadau sy’n amgylcheddol gynaliadwy. Bydd y camau hyn yn ein helpu i leihau allyriadau carbon ein cynyrchiadau, ein gweithrediadau a'n hymddygiadau.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut bydd y ddwy ochr yn cydweithio ar lefel strategol i sicrhau gwerth ychwanegol o amrywiaeth o ffynonellau ariannu: mae'r rhain yn cynnwys cyllid Cymru Greadigol ei hun, buddsoddiad sydd eisoes wedi’i wneud gan BBC Cymru ym maes teledu ac iPlayer, ac ymrwymiad parhaus y BBC i fuddsoddi o leiaf 5% o wariant teledu rhwydwaith yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi'i gynllunio i ategu buddsoddiadau'r sector preifat.

Rydyn ni’n cydnabod rôl arweiniol Cymru Greadigol wrth lywodraethu a chyflawni ei weithgareddau, ei swyddogaethau a'i flaenoriaethau ei hun, gan weithio gyda phartneriaid i elwa o'u rolau arweinyddiaeth penodol. Ar yr un pryd, mae'r ddogfen hon hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw beth yn y bartneriaeth hon sy’n lleihau rhwymedigaethau Siarter y BBC, gan gynnwys ei annibyniaeth olygyddol a gweithredol.

Mae’r ddogfen hon mewn dwy ran.

Mae'r rhan gyntaf yn amlinellu ymrwymiad cyffredin partneriaid i gyflawni gweledigaeth ac amcanion Cymru Greadigol ar y cyd.

Mae'r ail ran yn amlinellu ymrwymiad y partneriaid priodol i gyflawni gweithgareddau a chanlyniadau penodol.

**Ein gweledigaeth**

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau a chryfderau niferus y sector creadigol yng Nghymru. Mae'n ymrwymo i gydweithio i wneud Cymru yn bwerdy creadigol ac i adeiladu economi ffyniannus.

Mae ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd er mwyn cydweithio'n agosach ac yn gryfach wrth wraidd ein gweledigaeth. Ein pwyslais fydd sicrhau bod y bunt Gymreig yn mynd ymhellach, gyda buddsoddiad ac adnoddau wedi'u targedu at y meysydd hynny sydd â'r angen mwyaf, a'r elw posib.

Nid yw ein gweledigaeth wedi'i chyfyngu i gyflawni economaidd. Byddwn hefyd yn ceisio cyflawni'r effaith fwyaf posib mewn meysydd diwylliannol a chymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn cyfathrebu ein gweithgarwch a'n buddion i ddinasyddion a chynulleidfaoedd.

Rhwng nawr a diwedd cyfnod presennol y Siarter yn 2027, mae'r BBC wedi ymrwymo, yn ei strategaeth *Ar Draws y DU,* i ail-greu'r BBC fel sefydliad sy'n wirioneddol bresennol ledled y DU gyda phresenoldeb llawer cryfach ar hyd a lled y wlad. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad sylweddol a newydd i bortreadu Cymru i'w hun ac ar deledu rhwydwaith y BBC ac iPlayer.

Felly, bydd y BBC a Cymru Greadigol yn gweithio'n agos i sicrhau bod buddsoddiad yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r cytundeb partneriaeth hwn. Byddwn, ar y cyd, a gyda chyrff eraill o fewn y sector cyhoeddus, preifat a di-elw, yn cynrychioli, yn datblygu ac yn hyrwyddo'r sector sgrin yng Nghymru, ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod y sector sgrin yn:

- cefnogi mentrau creadigol cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gyda chyflogau ac arferion gwaith teg, ac yn cynyddu ei gyfraniad at lwyddiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- cynhyrchu cynnwys sy'n helpu i dyfu uchelgais greadigol a graddfa economaidd y sector teledu yng Nghymru;
- cyflawni llwyddiant rhyngwladol gyda Chymru'n cael ei chydnabod fel canolfan ragoriaeth ac arloesedd ar gyfer datblygu a chynhyrchu cynnwys, talent, criwiau technegol a chrefft medrus, seilwaith, cwmniau cyfleusterau, arddangosfeydd ac addysg ffilm;
- hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, o flaen a thu ôl i'r camera – gan ddatblygu, denu a chadw talentau amrywiol;
- darparu cynnwys sy'n adrodd y straeon, yn adlewyrchu bywydau a thirlun y genedl, yn ogystal â'r ieithoedd a'r diwylliannau, mewn ffordd sy'n apelgar i gynulleidfaoedd byd-eang ac sy'n creu balchder yn lleol;
- hyrwyddo datblygu cynaliadwy o fewn y sector cynhyrchu, gan weithio tuag at ymrwymiad sero net.

Er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn, byddwn yn cydlynu ein gweithgareddau â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys darlledwyr a'r sector teledu annibynnol a chynhyrchu digidol, a lle bo'n berthnasol, undebau llafur a chyrff eraill o fewn y diwydiant.

Byddwn yn sicrhau bod gwaith partneriaeth rheolaidd wedi'i strwythuro er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Bydd hyn yn cynnwys cwrdd yn ffurfiol bob chwarter i adolygu cynnydd ac i gytuno ar gamau gweithredu cyffredin a'r rhai sy'n benodol i bartneriaid.

**Ein huchelgeisiau cyffredin**

Ein gweledigaeth, a amlinellir uchod, yw sail yr hyn rydyn ni'n ceisio'i gyflawni.

Yn ganolog i'r llwyddiant hwn fydd cyflawni'r uchelgeisiau ymarferol cyffredin canlynol:

1. **Parhau i ragori ar darged gwariant Teledu Rhwydwaith o 5% yng Nghymru i gefnogi uchelgeisiau twf economaidd y sector cynhyrchu yng Nghymru**
2. **Datblygu a thyfu talent amrywiol**
3. **Cynyddu'r proffil a'r portread o Gymru**
4. **Cynaliadwyedd amgylcheddol (gan gynnwys drwy gynyrchiadau sy'n amgylcheddol gynaliadwy)**

**1. Parhau i ragori ar darged gwariant Teledu Rhwydwaith o 5% yng Nghymru i gefnogi uchelgeisiau twf economaidd y sector cynhyrchu yng Nghymru**

- Ein man cychwyn yw cydnabod pwysigrwydd sylfaenol gweithgarwch cynhyrchu yng Nghymru. Wrth gyflawni'r amcan hwn, byddwn yn hyrwyddo perchnogaeth asedau IP, cefnogi talentau creadigol yn natblygiad hirdymor sector cynaliadwy; tra hefyd yn agored i bartneriaid creadigol eraill lle gallant wneud cyfraniad gwerthfawr;
- Byddwn yn cyd-fuddsoddi mewn datblygu a chynhyrchu, gyda'r bwriad o sicrhau cynnwys o ansawdd uchel ym maes dramâu teledu, comedi wedi'i sgriptio a chyfresi ffeithiol ar gyfer BBC Cymru ac allbwn Rhwydwaith y BBC;
- Byddwn yn adnewyddu'r amrywiaeth bresennol o gomisiynau o Gymru sy'n dychwelyd ar deledu'r BBC a BBC iPlayer. Yn ogystal, byddwn yn cryfhau'r portread o Gymru yn unol ag ymrwymiadau *Ar Draws y DU* y BBC;
- Byddwn yn cyd-fuddsoddi mewn peilota i brofi a chryfhau syniadau, lle bo'n briodol;
- Byddwn yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd a datblygu sgiliau drwy ganolbwyntio ar ddatblygu cyfresi sy'n dychwelyd, o gwmnïau o Gymru a'r cwmnïau hynny nad ydynt o Gymru sydd wedi ymrwymo i gynhyrchu yng Nghymru;
- Byddwn yn ceisio cryfhau enw da Cymru fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Cynyrchiadau Teledu ym Mhen Ucha'r Farchnad drwy fuddsoddiad Cymru Greadigol a'r BBC mewn seilwaith a sgiliau cynhyrchu, gan sicrhau bod ein cefnogaeth i gynyrchiadau o'r fath yn glir yn y clodrestrau (*credits*) ac fel rhan o'r cynnwys hyrwyddo (yn unol â chanllawiau clodrestrau'r BBC);
- Byddwn yn ceisio cynyddu'r defnydd o gerddoriaeth a gynhyrchwyd gan artistiaid o Gymru;

- Byddwn yn archwilio ac yn dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio drwy brosiectau cydweithredol a ariennir yn ystod y flwyddyn a phrosiectau amlflwyddyn;
- Byddwn yn archwilio'r potensial ar gyfer digwyddiad blynyddol yng Nghymru i ddod â'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru at ei gilydd gyda Chomisiynwyr y BBC.

**2. Tyfu talent amrywiol mewn cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol**

- Byddwn yn gweithio tuag at ddatblygu diwydiant cynhyrchu mwy amrywiol a chynhwysol yn ei ystyr ehangaf ar y sgrin ac oddi ar y sgrin – drwy annog ystod ehangach o leisiau, straeon a safbwyntiau i gael eu clywed a chynnwys gweithlu mwy amrywiol y tu ôl i'r llenni yn ogystal ag ar y sgrin;
- Byddwn yn defnyddio holl allbwn BBC Cymru a Rhwydwaith y BBC a ddatblygwyd yng Nghymru i gefnogi syniadau, talentau a fformatau newydd;
- Byddwn yn nodi ac yn cefnogi mentrau hyfforddi cynhwysol ac yn creu cyfleoedd datblygu proffesiynol i ddiwallu meysydd lle gwelir bod angen. Bydd y maes hwn yn adeiladu ar lwyddiant cynlluniau cyfredol fel BBC Writers, y Cynllun Carlam Ffeithiol a chynlluniau Cyswllt Diwylliant Cymru, sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd â S4C a Channel 4.

**3. Cynyddu proffil Cymru**

- Rydyn ni'n ymrwymo i ddatblygu cynnwys o safon fyd-eang – yn enwedig drama a ffeithiol ar deledu – sy'n adrodd straeon ac yn adlewyrchu bywydau'r genedl, gan gynrychioli Cymru i'w hun, i gynulleidfaoedd ledled y DU ac yn fyd-eang;
- Rydyn ni'n anelu at ddenu cynulleidfaoedd ehangach tuag at gynnwys o Gymru drwy greu prosiectau sydd â mwy o uchelgais ac apêl fasnachol;
- Byddwn yn rhannu data am ein cynulleidfaoedd newidiol a'r tirlun cynhyrchu er mwyn llywio ein penderfyniadau buddsoddi yn well;
- Byddwn yn hybu buddsoddiad yng Nghymru drwy weithio gyda chynhyrchwyr cyd-gynyrchiadau, dosbarthwyr a darlledwyr tramor;
- Byddwn yn cytuno ar strategaeth a chynllun marchnata a chyfathrebu ar y cyd i gefnogi a chyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

**4. Cynaliadwyedd amgylcheddol**

- Rydyn ni'n ymrwymo i ddatgarboneiddio ein hynni a'n gweithrediadau;
- Byddwn yn ymdrechu i ddatblygu a chynhyrchu cynnwys mewn ffordd lân a chyfrifol gyda tharged o 100% o ran cynyrchiadau sydd wedi'u hardystio gan Albert, a bodloni'r safonau cynaliadwyedd uchaf;
- Byddwn yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael i annog arferion sy'n amgylcheddol gynaliadwy ar draws y sector, lle bo'n briodol.

**Ymrwymiadau cyflawni**

**Mae'r BBC yn ymrwymo i'r canlynol:**

- Adnewyddu’r amrywiaeth bresennol o gyfresi a gynhyrchir yng Nghymru sy’n dychwelyd ar deledu’r BBC a BBC iPlayer. At hynny, byddem yn dymuno cryfhau'r portread o Gymru yn unol ag ymrwymiadau *Ar Draws y DU* y BBC. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i raglenni sy’n portreadu Cymru sy’n ymddangos ar sianeli ledled y DU o fewn cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn;
- Cefnogi cynaliadwyedd economaidd a datblygu sgiliau gyda phwyslais ar ddatblygu cyfresi sy’n dychwelyd, gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r cwmnïau hynny nad ydynt yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i gynhyrchu yng Nghymru. Buddsoddi yn natblygiad syniadau sydd wedi’u sgriptio a di-sgript ar gyfer BBC Cymru a Theledu Rhwydwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf; gall hyn olygu cyd-gyllido gwaith datblygu ac, o ystyried natur y *genres* hyn, gall hyn hefyd olygu rhywfaint o brofi neu beilota i gyflawni hynny dros amser;
- Cyflawni o leiaf 6 phrosiect o Gymru bob blwyddyn;
- Sicrhau bod comisiynwyr y BBC, gan gynnwys comisiynwyr Rhwydwaith, yn ymgysylltu â chwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i gyfathrebu eu huchelgais a'u hanghenion rhaglennu, a bwrw ati i ddatblygu perthnasoedd â chwmnïau cynhyrchu yng Nghymru sydd â syniadau neu botensial i'w cyflawni.
- Parhau i fuddsoddi yn BBC Writers ac It’s My Shout er mwyn datblygu awduron lleol a thalent y tu ôl i’r llenni ac ar y sgrin;
- Agor 100% o gynnwys teledu i gystadleuaeth yng Nghymru erbyn 2027, ac eithrio lle nad yw'n werth am arian gwneud hynny;
- Ymdrechu i sicrhau bod y prosiectau sy’n cael eu cyd-ariannu yn cynnig y cyfleoedd mwyaf posib i dalent a chriwiau o Gymru.

**Mae Cymru Greadigol yn ymrwymo i’r canlynol:**

- Cefnogi dyheadau’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy fuddsoddi mewn cynnwys sy’n diwallu’r amcanion hyn;
- Nodi adnoddau o gyllideb Cymru Greadigol i gefnogi ystod o fentrau neu ymyriadau strategol y cytunwyd arnynt ar y cyd;
- Nodi cyfleoedd â thâl ar gyfer partneriaethau cynhyrchu eraill, cymorth o fewn cwmnïau, denu talent, cysgodi talent, peilota, lleoliadau a datblygiad proffesiynol, i gryfhau iechyd hirdymor y sector sgrin yng Nghymru;
- Nodi adnoddau i roi arian cyfatebol i ymrwymiad y BBC drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn i ddatblygu talent, sgiliau a busnesau yng Nghymru – naill ai drwy wella mentrau sy’n bodoli’n barod, neu drwy ddatblygu a chytuno ar rai newydd sy’n ategu ei gilydd;
- Sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu ar sail teilyngdod yn ôl y gwerth y maen nhw’n ei gyfrannu at y nodau a'r uchelgeisiau a rennir ac mewn ffordd deg a thryloyw;
- Gweithio gyda’r BBC a phartneriaid eraill i hwyluso’r broses o ganfod talent o Gymru sy'n dod i'r amlwg o bob cwr o’r wlad. Gweithio gyda’r BBC a BBC Cymru Wales i wneud y mwyaf o effaith cyllid datblygu ar draws y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru;
- Gweithio’n agos gyda Chyfarwyddwr y Cenhedloedd a’r Rhanbarthau a chynrychiolwyr eraill Cenhedloedd a Rhanbarthau’r DU ar feysydd sydd o ddiddordeb i’r ddwy ochr;
- Gweithio mewn partneriaeth â’r BBC yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

**Cyfnod y Memorandwm ac Adolygu**

Mae'r cytundeb partneriaeth newydd hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2025 a 31 Rhagfyr 2027, gydag adolygiad ffurfiol ar ddiwedd y 12 mis cyntaf.

Bydd y mentrau a amlinellir yn y bartneriaeth hon yn cael eu monitro a'u mesur yn chwarterol, gyda'r ddwy ochr yn cyfnewid gwybodaeth am brosiectau cyfredol i nodi ac ymdrin ag unrhyw ddiffygion posib o fewn Cyfnod y Memorandwm.

Grŵp sydd wedi'i gynnull fydd yn gyfrifol am y monitro a'r adolygu parhaus, gan gynnwys cynrychiolwyr perthnasol o BBC Cymru, Teledu Rhwydwaith y BBC a Cymru Greadigol.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw hwn ac nid yw wedi'i fwriadu i fod yn gyfreithiol rwymol. Mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i gyflawni'r uchelgeisiau a rennir; serch hynny, efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw hynny'n bosib.

**Partïon**

**<u>BBC</u>**

Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yw'r BBC a sefydlwyd o dan Siarter Frenhinol. Caiff ei ariannu gan ffi'r drwydded sy'n cael ei thalu gan gartrefi'r DU.

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig, o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Ei weledigaeth yw bod y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd.

Mae BBC Cymru yn gwasanaethu poblogaeth o 3.1m o bobl, gan ddarparu gwasanaethau i holl gymunedau Cymru. Mae gwasanaethau teledu a BBC iPlayer yn cynnwys BBC One Wales, BBC Two Wales, rhaglenni sy'n cael eu cyfrannu i S4C a chaiff gwasanaethau radio eu darparu drwy BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales; ceir darpariaeth ar-lein yn bbc.co.uk/Cymru a www.bbc.co.uk/Wales.

Adran o'r BBC yw BBC Content sy'n gweithredu chwe sianel ar draws y DU - BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four, CBBC a CBeebies drwy ddarlledu llinol, yn ogystal â gwasanaeth BBC iPlayer. Mae'n comisiynu cynnwys ar gyfer y sianeli a'r gwasanaethau hynny ar draws meysydd Di-Sgript, Wedi'i Sgriptio, Plant a Chwaraeon.

**<u>Cymru Greadigol</u>**

Lansiwyd Cymru Greadigol ym mis Ionawr 2020 i ddatblygu a thyfu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Corff mewnol Llywodraeth Cymru yw Cymru Greadigol, ac mae'n derbyn ei gyllid wrth Lywodraeth Cymru.

Mae gan Cymru Greadigol gyllideb flynyddol i gefnogi'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys y sector sgrin yng Nghymru, yn ogystal â chymorth ac adnoddau'r asiantaethau partner.

**<u>BBC Studios</u>**

Lansiwyd BBC Studios fel is-gwmni masnachol o dan berchnogaeth lwyr ym mis Ebrill 2017. Mae Cymru Greadigol yn cydnabod y bwriad y bydd BBC Studios yn gweithredu ar sail debyg i unrhyw gwmni cynhyrchu arall yn y DU ac yn cytuno i ddelio â BBC Studios ar yr un telerau.

Mae'r BBC yn ymrwymo i fod yn agored ac yn deg o ran statws BBC Studios mewn perthynas â'r farchnad ehangach.

**Llofnodwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn**

**…………………………………**

**Tim Davie**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, BBC**

**…………………………………..**
**Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.**